Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 475 MEHEFIN 2025 | AM DDIM

## FFARWEL I JOE ALLEN

**-HEINI GRUFFUDD**

Chwaraeodd Joe Allen, y Cymro Cymraeg gafodd ei fagu yn Aberth, a chyn-ddisgybl yn Ysgol Gymraeg y Preseli, ei gêm olaf i dîm pêl-droed Abertawe ar yr ail o Fai. Safodd y dorf ar eu traed i'w gymeradwyo wrth iddo adael y cae ac yntau wedi ei ddewis yn gapten am y diwrnod, yn lle Cymro Cymraeg arall, Ben Cabango.



Cychwynnodd ei yrfa gydag Abertawe yn 9 oed a chael rhan yn y tîm cyntaf yn 2006-7. O dan y chwaraewr a'r rheolwr disglair, Martinez, cafodd le parhaol yn y tîm. Gyda Brendan Rogers yn rheolwr, roedd Joe Allen yn y tîm a gurodd Reading i gael dyrchafiad i'r uwch-gynghrair yn 2011. Chwaraeodd Joe Allen 36 gêm i Abertawe yn yr uwch-gynghrair ac yna prynodd Lerpwl e am £15 miliwn a chwaraeodd yno am bedair blynedd.

Wedi cyfnod yn Stoke rhwng 2016 a 2022 dychwelodd i Abertawe. Yn ystod ei yrfa chwaraeodd 77 gêm i Gymru rhwng 2009 a 2024. Cafodd ei enwi'n chwaraewr gorau Cymru yn 2012, a disgleiriodd yng ngemau Ewrop 2016 pan gyrhaeddodd y tîm y rownd gyn-derfynol.

Yn rhedwr chwim, yn daclwr dygn ac yn basiwr effeithiol, gallai Joe Allen gyfrannu'n greadigol ir ymosod yn ogystal â bod yn amddiffynnwr di-ofn.

Mae Joe Allen yn un o gefnogwyr Llys Nini, y ganolfan i anifeiliaid di-gartref ym Mhenllergaer, ar safle hen ffermdy hanesyddol, lle y bu caer y Tywysog Eio ion ab Owain ap Hywel Dda yn y ddegfed ganrif.



## LANSIO I'W DDIWEDD OER

**-HEINI GRUFFUDD**

Cafodd nofel newydd Jon Gower, I'w Ddiwedd Oer, ei lansio yn Nhy Tawe ar y 13eg o Fai. Nofel yw hi am Edgar Evans, y gwr o Middleton, Rhosili, a aeth gyda Scott i Begwn y De i geisio bod y cyntaf i gyrraedd yno.

Rhan o apêl y stori, meddai Jon Gower, oedd iddyn nhw fethu. Amundsen o Norwy gyrhaeddodd gyntaf, ac oherwydd diffyg trefn Scott wrth gynllunio'r daith, buon nhw i gyd farw yn yr ymdrech. Dyma'r drydedd daith y bu Edgar Evans arni gyda Scott.

Roedd cerdded 800 milltir i'r pegwn yn gamp enfawr, ac roedd cryfder a dewrder Edgar Evans yn hollbwysig i'r ymdrech. Meddai John Gower ei fod ef ei hun wedi cysylltu gwynder â marwolaeth. Pan chwiliodd am ei fam naturiol, a chyrraedd ei thy wedi iddi farw, ac yntau'n ffonio gartref i roi'r hanes, trodd yr olygfa yng Nglan-y-fferi'n wyn, a hynny'n brofiad rhyfedd iddo.

Ychydig o fanylion sydd am fywyd Edgar Evans, felly mae'r nofel yn dibynnu ar adnabyddiaeth Jon Gower o'r ardal, a'i ddehongliad ef o'r hyn a wynebai Edgar Evans. Roedd tad Edgar Evans yn forwr a'i dad-cu'n cadw tafarn y Ship yn Middleteon. Digon tebyg oedd hanes y teulu a fabwysiadodd Jon Gower, a'i dad-cu, yn forwr, yn ddylanwad mawr arno.

Un broblem wrth ysgrifennu, meddai, oedd bod Edgar Evans yn ddi-Gymraeg, a bod y nofel yn rhoi llais Cymraeg iddo, felly mae'r nofel yn defnyddio'r Gymraeg y byddai'r awdur yn gyfarwydd â hi yn ei gymdogaeth. Mae Jon Gower yn awdur mwy na 40 o lyfrau, yn nofelau a ffeithiol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac erbyn hyn yn awdur llawn amer.

Mae'r nofel ar werth yn Siop Tŷ Tawe.



## CATRIN STEVENS YN LLANDEILO FERWALLT
-DAFYDD WILLIAMS

Daeth yr hanesydd Catrin Stevens i sôn wrth Gymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt am y ddeiseb heddwch ryfeddol a drefnwyd gan ferched Cymru yn 1923-24.

Arwyddwyd y ddeiseb gan 390,296 o fenywod - a bu'n saith milltir o hyd! Ond fe gasglwyd yr holl enwau hyn at draws Cymru mewn vets pedwar mis.

Gwaith menywod oedd hyn i gydfynd, a bu pwyslais at fod yn gynhwysol, anenwadol ac amrywiol, a hynny ganrif gyfan yn ôl.





**Teithiau Cerdded y Wennol**

Beth am ymuno â ni ar deithiau cerdded yn Abertawe bob dydd Sadwrn?

Cyfle da i gyfarfod dysgwyr eraill ac ymarfer eich Cymraeg ar yr un pryd.

**Rhaglen mis Mehefin 2025**

**Mehefin 7ed** - Cronfeydd Dŵr Cwm Lliw. Cyfarfod yn y maes parcio SA5 7NP

**Mehefin 14eg** - Parc le Breos. Cyfarfod yn y maes parcio ger eglwys Penmaen

**Mehefin 21ain** - Cwm Clun. Cyfarfod yn y maes parcio ym mhen pellaf Mill Lane SA3 5BW

**Mehefin 28ain** - Coed Bishopston. Cyfarfod tu allan i neuadd eglwys St Peter SA3 5BW

**Mae pob taith yn dechrau am 10.30**

Dim cŵn os gwelwch yn dda. Gwisgwch ddillad a 'sgidiau addas

Os am fwy o wybodaeth ffoniwch Rob Evans

ar 07880 628653

Dewch i gyfarfod dysgwyr a Chymry Cymraeg er mwyn mwynhau'r awyr agored ac Iaith y Nefoedd.

**Dewch i gael hwyl!**

## BYD NATUR MIS MEHEFIN
-PATRICK SOPER

Mae cyfardwf yn lluosflwydd brodorol sy'n tyfu fel llwyn bach, yn aml yn lleoedd llaith, yn enwedig yng nghanol a de Lloegr.

Maen nhw'n cynhyrchu blodau mewn amrywiaeth o liwiau - glas gwelw neu borffor fel arfer - sy'n ymddangos rhwng mis Mai a mis Awst. Dyma blanhigyn poblogaidd gyda gwenyn, yn enwedig cacwn.



Yn aelod o deulu tafod y fuwch, cafodd cyfardwf ei ddefnyddio gan feddygaeth werin am ganrifoedd. Fe'i credwyd y gallai hyrwyddo iacháu, ac felly roedd yn cael ei adnabod fel 'knit-bone' yn Saesneg.
Heddiw, beth bynnag, mae dadansoddiad gwyddonol yn dweud wrthon ni fod y planhigyn hwn yn cynnwys gwenwynau sy'n peri difrod i'r iau.

Pob blwyddyn rhwng mis Ebrill a mis Mehefin mae ein perthi a'n coetiroedd agored yn cael eu sirioli gan flodau botwm crys. Dyma flodau syml, fel sêr gwynion gyda phum petal a bob un wedi'u hollti, bron, yn ddau.



Lluosflwydd brodorol arall ac yn gyffredin ledled yr ynysoedd hyn, mae gan ei goesau a'i dail cul ymylon ychydig yn arw.
Yn chwedloniaeth Geltaidd câi botwm crys yn gysylltiedig â phurdeb ac felly roedd yn cael ei defnyddio o bryd i'w gilydd yn duswau priodas.

Ond ar y llaw arall, ac yn fwy cyffredinol, credwyd bod pigo'r blodau hyn yn achosi mellt a tharanau.

Heb os pabïau coch yn tyfu'n wyllt yw un o'r golygfeydd mwyaf hyfryd canol yr haf. Wrth flodeuo am gyfnod byr yn ystod misoedd Mehefin i Awst, mae gan y blodau unflwydd hyn pedwar petal ysgafn a thenau a fydd yn aros am nid mwy na ddiwrnod neu ddau cyn cael eu disodli gan goden yr hadau.

Mae pabïau yn gyffredin drwy'r ynysoedd hyn ac, er nid yn frodorol, maent wedi ffynnu yma ers Oes yr Efydd Diweddar o leiaf.



Yn tyfu ar Ynys Metgawdd, 'Ynys Sanctaidd', ar hyd arfordir Northymbria yw'r rhai yn y llun; gwnaethon ni ymweld â'r lle yn 2011. Mae modd gyrru i'r ynys dros y sarn yn ystod y llanw isel.

Yn y blynyddoedd diweddar mae goleuadau trafnidiaeth wedi'u gosod ar y sarn gan fod cymaint o yrwyr trahaus yn wfftio'r llanw yn codi, a daeth eu ceir yn sownd!

Ond pe byddech yn ymweld ag Ynys Metgawdd, dim ond unwaith, byddai ei hudoliaeth gynnil yn aros gyda chi am byth.

Ynys Metgawdd - Lindisfarne

## Y CYMRY A LLUNDAIN

**-MARTIN JONES**

Efallai oherwydd i fy mam gael ei geni yn Lambeth ac y bydden ni'n ymweld â'i rhieni ar gyrion Llundain yn gyson pan oeddwn i'n tyfu lan, mae wastad wedi bod gyda fi deimlad o gysylltiad â'r ddinas. Wedyn, cwpl o flynyddoedd yn ôl, sbardunodd pennod y rhaglen S4C Cynefin ar Lundain ddiddordeb gyda fi yn y cysylltiadau rhwng Llundain a'r Cymry. Felly, y llynedd, pan oeddwn i ar fy mhererindod blynyddol i Lords, cartref criced, penderfynais ei bod hi'n hen bryd i fi ymweld â rhai o leoedd Llundain â chyswllt Cymreig.

Efallai taw un o'r cofebion Cymreig mwyaf annisgwyl ydy un sy'n dyddio dim ond yn ôl i 2001 - carreg goffa Catrin Glyndŵr sydd i'w gweld nid nepell o Orsaf Cannon Street. Merch Owain Glyndŵr oedd Catrin. Roedd hi'n briod ag Edmund Mortimer a chafodd hi a'i phlant eu dal gan y Saeson yng Nghastell Harlech ym 1409. Daethpwyd â nhw i Dŵr Llundain, ond pedair blynedd yn ddiweddarach fuon nhw farw mewn amgylchiadau anesboniadwy. Dydy achos eu marwolaeth ddim yn hysbys, a chawson nhw eu claddu ym mynwent St Swithan. Dinistriodd y fynwent yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond y dyddiau hyn mae gerddi bach yn sefyll ar beth oedd yn rhan o'r hen fynwent, ac ar 16eg o Fis Medi, 2001, yn y gerddi hyn, dadorchuddiodd yr actores Siân Phillips gerflun 10 troedfedd wedi'i wneud o gerrig las Gelligaer ac arysgrifen arno fe:



Godre twr – adre nid aeth
Aria ei rhyw yw hiraeth.

Alaw dawel yr alltud
Menna Elfyn

Cysegrir y cerflun nid yn unig i Catrin Glyndŵr a'i phlant ond hefyd i holl fenywod a phlant sy wedi dioddef o ganlyniad i ryfeloedd.

Mae'r gerddi bach ynghudd mewn bwlch wedi'i amgylchynu gan adeiladau modern, ac er nad ydy prysurdeb Cannon Street ond tafliad carreg i ffwrdd, i fi mae'n lle o lonyddwch a hyd yn oed harddwch. Yn bendant, yn lle hyfryd i eistedd a synfyfyrio.

Mae'n ymddangos i fi bod llawer o bobl ddim wedi clywed sôn am Syr Hugh Myddleton, er taw dyn pwysig iawn yn hanes y ddinas ydy e: peiriannydd sifil hunan dysgedig o Ruthun, a ddaeth â dwr yfed glân i'r brifddinas ym 1613, ac o ganlyniad, achubodd cannoedd o fywydau.

Erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg, roedd poblogaeth Llundain wedi tyfu'n sylweddol ac roedd diffyg dŵr yfed glân wedi bod yn broblem ddifrifol. Datrysodd Syr Hugh Myddleton y broblem gan adeiladu afon newydd o'r afon Lea yn Hertfordshire i mewn i Lundain yn Clerkenwell. A daeth y buddion yn fuan iawn - o fewn blwyddyn roedd marwolaethau wedi'u hachosi gan heintiau wedi'u cludo gan ddŵr ar eu hanner.

Dydy enw Syr Hugh ddim wedi mynd yn angof - mae ei enw i'w weld mewn nifer o enwau strydoedd ac adeiladau ym Mhrifddinas Lloger hyd at heddiw. A dyma lun o'i gerflun yn Islington.Wrth i boblogaeth Llundain dyfu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, felly tyfodd treuliant llaeth a chynnyrch llaeth. Creodd hyn gyfle i luoedd o Gymry symud i Lundain i ddod o hyd i waith yn y diwydiant llaeth. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd hanner y siopau cornel yn Llundain yn llaethdai Cymreig. I gychwyn, byddai'r llaethdai'n cadw gwartheg mewn beudy y tu ôl i'r siop. Ond erbyn 1900 roedd y nifer o laethdai oedd yn cadw gwartheg wedi lleihau gryn dipyn wrth i'r rheolau ynglŷn â chadw anifeiliaid yn y ddinas fynd yn llymach ac wrth i laeth gael ei ddosbarthu i Lundain yn fwyfwy ar y trên. Wedi dweud hynny, parhaodd un llaethdy i gadw gwartheg tan 1954! Ond erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd y rhan fwyaf o laethdai Cymreig wedi dod yn siopau groser neu siopau popeth, er nid tan 2000 cafodd y llaethdy olaf ei gau.

Yn gynharach eleni, roeddwn i'n falch iawn o ddarganfod bod un o'r hen laethdai'n adeilad cofrestredig. Heddiw Farmer Cafe ydy'r llaethdy, ond mae enw'r llaethdy'n dal i'w weld: J. Evans Dairy Farmer. Tu mewn mae'r cownter marmor gwreiddiol yn dal i fodoli ac arno fe teils yn dangos golygfeydd gwledig wedi'u paentio â llaw. Cyfeiriad y caffi ydy 35, Conway Street ac mae'n sicr yn werth ei ymweld.




## CYLCH DARLLEN LLYFRAU TŶ TAWE A LLYFRAU'R MISOEDD DIWETHAF

**-ELIN MEEK**

Dros wyliau'r Nadolig y darllenon ni Hunllef Nadolig Eben Parri gan Arwel Vittle (Y Lolfa, £9.99) gan mai fersiwn o Christmas Carol yw'r nofel hon. Mae'r prif gymeriad yn cael ei dywys i Gymru'r Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol, a'r awdur yn defnyddio'r strwythur hwn i ddychan yn ddeifiol. Roedd llawer o sylwadau difyr yn y nofel ac er nad oedd at ddant pawb, cafodd groeso cyffredinol gan y Cylch.

**Y Ferch ar y Cei** gan Catrin Gerallt (Y Lolfa, £9.99) oedd testun ein trafodaeth ym mis Chwefror, nofel . wedi'i lleoli yng Nghaerdydd gyda'r cefndir a'r cyd-destun yn gredadwy iawn gan mai newyddiadurwraig yw'r prif gymeriad (a chyn-newyddiadurwraig yw'r awdur). Roedd y penodau'n fyr a'r nofel yn symud yn gyflym, yn enwedig tua'r diwedd. Nofel i fynd â hi gyda chi ar wyliau.

Cafodd y nofel **Bedydd Tân** gan Dyfed Edwards (Gwasg y Bwthyn, £9.95) ei chyhoeddi rai blynyddoedd yn ôl ond penderfynwyd ei darllen gan fod yr ail yn y drioleg o nofelau, Tir Dial, wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar.

Mae wedi'i lleoli ar Ynys Môn, felly mae tafodiaith yr ynys yn amlwg, gydag iaith fras ar adegau hefyd. Roedd rhai wedi mwynhau hon gymaint fel y darllenon nhw Tir Dial hefyd yn fuan.

Mae Angharad Price eisoes wedi ennill clod am ei chyfrol O! Tyn y Gorchudd, felly roedd yn rhaid darllen Nelan a Bo (Y Lolfa, £9.99). Swynwyd y rhan fwyaf o'n darllenwyr gan ysgrifennu medrus yr awdur. Mae hi'n portreadu ardal Bethel yn Arfon ar droad y 19eg ganrif gyda'r holl newidiadau o ran y chwyldro diwydiannol a thwf Anghydffurfiaeth, a hynny drwy lygaid dau gymeriad a'u stori garu hwythau. Mae'r nofel hon newydd gael ei gosod ar restr fer Ffuglen Llyfr y Flwyddyn 2025.

Rydyn ni newydd drafod **Haydn a Rhys** gan Geraint Lewis (Gwasg Carreg Gwalch, £8.99), stori am ddau ffrind bore oes o Geredigion sydd bellach yn eu saithdegau yn mynd ar daith i Ynys Môn i ddarganfod y gwirionedd am y presennol a'r gorffennol, ac amdanyn nhw eu hunain hefyd. Erbyn tua chanol y nofel (sy'n cynnwys elfennau o ffars ar adegau), roedd nifer o ddarllenwyr yn methu ei rhoi i lawr oherwydd eu bod mor awyddus i weld beth sy'n digwydd. Mae sawl troad yn y gynffon, reit at y diwedd!

Er nad ydyn ni wedi trafod hon yn 'swyddogol', byddai nifer o aelodau'r Cylch yn argymell Wythnos Ryfedd Gwilym Puw gan Neil Rosser (Y Lolfa, £9.99) yn enwedig i'r rhai ohonoch chi sy'n gyfarwydd â'r byd addysg. Mae Gwilym Puw yn arolygydd ysgolion gyda Gorestyn, ond mae'n mynd drwy ryw fath o argyfwng sy'n newid ei ffordd o weld ei waith a'r byd yn gyffredinol. Mae Neil Rosser yn dod o Abertawe ac mae'n tynnu tipyn ar y cefndir hwnnw yn y nofel ddoniol a threiddgar hon.


Mae'r Cylch yn cwrdd bob ail nos Lun o'r mis am 7:30 yn Nhŷ Tawe i drafod nofelau gan amlaf a storïau byrion ar dro. Fel arfer, rydyn ni'n dewis rhai o'r nofelau sydd newydd gael eu cyhoeddi ond weithiau rydyn ni'n troi at hen glasuron. Mae aelodau'r Cylch yn cael 10% o ostyngiad oddi ar y llyfrau i'w trafod yn Siop Tŷ Tawe. Wrth gwrs, gan fod ein chwaeth yn amrywio, mae'r marciau y mae pob llyfr yn eu cael yn amrywio hefyd, o 4/10 i 9/10 yn aml iawn. Mae'r rhan fwyaf ohonon ni'n darllen nofelau na fydden ni'n eu darllen fel arfer, ac yn cael siom o'r ochr orau (fel arfer!). Yn sicr, mae'r drafodaeth a'r gwmnïaeth yn braf ac rydyn ni'n cael cinio Nadolig (weithiau ym mis Ionawr).

Mae'r holl lyfrau ar gael yn Siop Tŷ Tawe.

## DATHLU CANMLWYDDIANT MEINI'R ORSEDD

**-RHIANNON BARRAR**

Mae Ffrindiau Parc Singleton yn dathlu canmlwyddiant Meini'r Orsedd ym Mharc Singleton gyda digwyddiad Haf ar Orffennaf 12fed o 11.00 i 13.00.




Cynhelir y digwyddiad ger Meini'r Orsedd. Bydd yr archdderwydd Mererid Hopwood yn siarad am eu hanes a'u harwyddocâd a'u cysylltiad ag Abertawe. Darperir adloniant gan ddrymio AberTaiko a chôr y Shanty Jacs. Darperir lluniaeth

# NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

## LLWYDDIANNAU LLENYDDOL BRYN TAWE YN EISTEDDFOD YR URDD ELENI

**-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG**

Llwyddiannau Llenyddol Bryn Tawe yn Eisteddfod yr Urdd eleni
Llongyfarchiadau i Fanw Watson ar ennill y drydedd wobr am ryddiaith Bl.9 yn yr Urdd eleni, i Maiwenn Watson ar ennill yr ail wobr am farddoniaeth Bl.10 ac 11, ac i Louise Phillips ar ennill y drydedd wobr am Ryddiaith Bl.10 ac 11.
Llongyfarchiadau hefyd i griw'r cyweithiau llenyddol iau a hŷn sydd wedi dod yn fuddugol unwaith eto eleni.

## BRYN TAWE YN CYMRYD RHAN YN 'HER SEFYDLIAD MORGAN'

**-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG**

Diolch i Brifysgol Abertawe am drefnu cystadleuaeth siarad cyhoeddus 'Her Sefydliad Morgan' ym mhabell y Gwyddonle yn Eisteddfod Dur a Môr eleni. Deallusrwydd artiffisial yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru oedd cyd-destun y ddadl eleni. Cynrychiolodd Maiwenn Watson a Hari James yr ysgol ac ennill eu lle yn y rownd derfynol yn y Gwyddonle. Llongyfarchiadau mawr i Hari James am ennill y gwrthwynebydd gorau a siaradwr gorau'r gystadleuaeth. Diolch i'r Brifysgol am y wobr ariannol hael i'r ysgol a bydd Hari nawr yn cael cyfle i fynd ar brofiad gwaith o'i ddewis wedi'i drefnu gan Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe.



## MATHEMATEGYDD A FFISEGWR O FRI!

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED



Llongyfarchiadau mawr i Elis Wathan o fl 12 ar ei lwyddiant mewn dwy gystadleuaeth yn ddiweddar. Enillodd wobr efydd yn yr Olympiad Ffiseg Prydeinig. Roedd yn rhaid iddo ateb 13 o gwestiynau a oedd yn debyg o ran cynnwys i'w gwrs Ffiseg Lefel A, ond yn llawer mwy heriol ac yn gofyn am lawer mwy o ddyfnder. Yn ogystal, enillodd wobr efydd yng Nghystadleuaeth mathemateg Seren ar ôl iddo ateb tri chwestiwn heriol. Mae'n amlwg fod dyfodol disglair o'i flaen. Gwych Elis!

## FFARWELIO GYDA BLWYDDYN 13

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Ar b'nawn Iau, Mai'r 22ain, fe wnaethon ni ffarwelio gyda blwyddyn 13. Roedd ffarwelio gyda'r criw yn un emosiynol iawn i ni fel staff ac iddyn nhw fel blwyddyn. Ar ôl colli dau ffrind yn ystod eu cyfnod yn y chweched mae eu cyfeillgarwch, eu caredigrwydd a'u cryfder wedi bod yn ysbrydoliaeth i ni i gyd. Pob dymuniad da i chi flwyddyn 13.



## HAFIACH

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Mae Alis Williams o fl12 yn serennu yng nghyfres newydd S4/C, Hafiach ar hyn o bryd. Gwych oedd gweld y premier yn yr Eisteddfod yr wythnos ddiwethaf, a wedyn cael cyfle i weld y gyfres ar S4/C dros yr wythnosau nesaf. Mae Hafiach yn stori antur dywyll am griw o ddisgyblion sy'n




dathlu diwedd eu haroliadau TGAU ac yn darganfod corff bachgen ar y traeth. Mae Alis yn chwarae rôl Cara. Llongyfarchiadau i ti Alis!

## NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE




Dewch i'r Cwis Mawr yng Nglwb Rygbi Trebannws am noson gwis am ddim. Fe fydd adloniant gan Diwtoriaid Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, Cor Y Dysgwyr a band Iwcalili newydd CNPT. Addas i siaradwyr o bob lefel.




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Mai. Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Gorffennaf erbyn Mehefin 23ain trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Am ddim / Free

# GŴYL HAF PLANTAWE



**Parc Waverley, Clydach SA6 5JZ**

## DYDD GWENER/FRIDAY

## 25/07/25 13:00-15:30

Gemau | Gweithdai | Chwarae | Canu | Crefft | Ymwelwyr Arbennig | A mwy..

Games | Workshops | Play | Signing | Craft | Special Visitors | and Much More

menter@micnpt.cymru

menter iaith abertawe

MENTRAU IAITH

CYMRAEG

menter iaith Castell-nedd Port Talbot

Llywodraeth Cymru Welsh Government

MARC ELUSEN DDIBYNADWY TRUSTED CHARITY MARK LEFEL LEVEL 1

Cyswllt: 01639 763819 | menter@micnpt.cymru | Rhif Cwmni 6156176